

Gwybodaeth i Gleifion

Glawcoma


Uned Llygaid

Beth yw Glawcoma?

Mae glawcoma yn gyflwr llygaid lle mae'r nerf optig yng nghefn y llygad yn cael ei niweidio'n raddol, gan beri i'r claf golli ei faes golwg (golwg ochr). Mewn rhai cleifion mae hyn oherwydd cynnydd yn y gwasgedd yn yr hylif y tu mewn i'r llygad, sydd hefyd yn niweidio'r ffibrau nerf sy'n rhedeg at y nerf optig o'r retina. Mae'r retina yn cynnwys y celloedd 'gweld' yng nghefn y llygad. Mae'r darnau o'r nerf a'r retina sydd wedi'u niweidio yn creu patshys parhaol o ddiffyg maes golwg.

Mae angen lefel benodol o wasgedd ar y llygad i gadw pelen y llygad mewn siâp, fel bod pelydrau golau'n cael eu ffocysu'n gywir ar y retina. Mae gan rai cleifion wasgedd llygad normal, gyda niwed yn digwydd oherwydd ffactorau eraill, fel cyflenwad gwaed gwael sy'n gwneud y nerf optig yn sensitif i wasgedd cymedrol hyd yn oed. Glawcoma tensiwn normal yw hyn, ac mae'n digwydd mewn tua 10-20% o gleifion glawcoma.

I'r gwrthwyneb, mae gan rai pobl wasgedd llygad uwch heb unrhyw effeithiau niweidiol i'r nerf optig neu'r maes golwg. Gelwir hyn yn orbwysedd ocwlar ac mae tua 10% o'r cleifion hyn yn datblygu glawcoma dros amser. Os caiff ei adael heb ei drin, mae namau'n datblygu ar y maes golwg ac mae'r golwg yn gwaethygu.



Mae yna fathau gwahanol o lawcoma.

Glawcoma ongl agored sylfaenol yw'r math mwyaf cyffredin. Mae'r gair ongl yn cyfeirio at yr ongl rhwng yr iris a'r gornbilen.

Glawcoma cau ongl aciwt, lle mae'r ongl yn cael ei chulhau.

Achosir glawcoma eilaidd gan gyflyrau amrywiol eraill ar y llygad, a all godi'r gwasgedd yn y llygad.

Glawcoma genedigol yw pan mae glawcoma'n bresennol ers cael eich geni.

Mae gweddill y daflen wybodaeth hon yn delio â glawcoma ongl agored sylfaenol yn unig.

Sut caiff Glawcoma ei drin?

Mae triniaeth i ostwng y gwasgedd fel arfer yn dechrau gyda diferion llygad. Os yw'r gwasgedd yn gostwng, mae'n debygol y gellir osgoi neu oedi niwed pellach i'r nerf optig. Mae'r gwasgedd llygad delfrydol yn newid o achos i achos. Os ydych wedi cael presgripsiwn, dylai potel o ddiferion bara 4 wythnos. Dylech wedyn gael presgripsiwn arall gan eich meddyg teulu. Peidiwch â rhoi'r gorau i ddefnyddio eich diferion oni bai bod y meddyg yn yr ysbyty wedi dweud wrthych am wneud hynny. Os nad ydych yn siŵr a ydych yn defnyddio eich diferion yn gywir, holwch.

Pa brofion sy'n cael eu gwneud?

Dylech fod wedi cael apwyntiad arall yn yr ysbyty. Ni ddylech yrru i'ch apwyntiadau. Pan fyddwch yn mynychu byddwn yn edrych ar eich llygaid, yn benodol eich nerf optig, gan fesur y gwasgedd yn eich llygaid, cynnal prawf maes o bosib (dangosir cyfres o smotiau o olau i chi ar sgrin, a gofynnir i chi ddweud pa rai rydych yn gallu eu gweld) ac o bosib wneud sgan laser o'ch nerf optig.

Byw gyda Glawcoma

Drwy ganfod y cyflwr yn gynnar a rhoi triniaeth i ostwng y gwasgedd llygad, gellir fel arfer atal neu arafu niwed pellach gan lawcoma.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gallu gyrru o hyd os nad yw'r maes golwg wedi'i effeithio'n wael.

A yw'n etifeddol?

Ydy - gall Glawcoma fod yn etifeddol. Mae perthnasau gwaed agos i'r rheini sydd â glawcoma tua chwe gwaith yn fwy tebygol o ddioddef o lawcoma na'r rheini heb hanes teuluol.

Mae profion llygad ar gael am ddim os ydych yn 40+ oed a bod gennych berthynas 'gyntaf' h.y. mam, tad, brawd, chwaer, sydd â glawcoma. Dylech wedyn gael prawf llygaid yn rheolaidd.

mae'r canlynol yn rhifau a gwefannau defnyddiol:

Y Gymdeithas Glawcoma Ryngwladol (IGA)

Llinell golwg IGA:- 0870 609 1870

www.iga.org.uk

Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB)

Llinell Gymorth:- 0845 766 9999

www.rnib.org.uk

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English”**